# Gweithlen

Roedd rhifyn mis Chwefror o IAW yn dangos sut mae'n bosibl mwynhau darllen y llythyrau yn y cylchgrawn a pharatoi at yr arholiad TGAU Cymraeg Ail Iaith ar yr un pryd.

Gwych 'te?

Mae'r weithlen y mis yma yn gwneud defnydd o ôl-rifynnau (hen gopïau) o'r cylchgrawn i helpu gyda'r darllen **adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol** (*narrative, specific and instructional*) yn Uned 3 yr arholiad TGAU.




Ar dudalen 14 ac 15 o gylchgrawn IAW Hydref 2016 mae erthygl ddiddorol a lliwgar iawn am iogwrts Llaeth y Llan.
**DARLLENWCH** yr erthygl isod sy'n seiliedig ar y wybodaeth yn mis Hydref 2016 ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**COFIWCH**:

- Bydd rhai tasgau yn gofyn am **ymateb di-eiriau ( ✓ neu ○ )**.
- Bydd rhai tasgau yn gofyn am ymateb ysgrifenedig.
- Bydd rhai cwestiynau yn gofyn i chi fynegi barn, cytuno ac anghytuno a chynnig rheswm.
- Bydd rhaid i chi ddefnyddio strategaethau deall iaith.

(Yn union fel (*exactly the same as*) yr arholiad wrth gwrs.)

VILLAGE DAIRY
EST. 1985
LLAETH Y LLAN
MADE IN WALES




### Ffocws Iaith!
### "yn cael ei..."

Enghraifft:
**Mae'n cael ei gynhyrchu gan...**
***It is produced by...***

Ydych chi'n gallu ffeindio enghreifftiau eraill yn y darn darllen?

Mae iogwrt Llaeth y Llan **ar gael** ers yr 80au. Mae'n cael ei **gynhyrchu** gan Gareth a Falmai Roberts ar eu fferm yn Llannefydd, Sir Ddinbych.
Daeth yr enw *Llaeth y Llan* yn wreiddiol o werthu llaeth i bobl y pentref lleol – Pentref Llannefydd.
Roedd y llaeth oedd **dros ben** bob dydd yn cael ei **wastraffu** ac felly roedd gwneud iogwrt yn syniad arbennig o dda.
Mae **15** blas i gyd. Mae'r potiau bach ar gael mewn **14** blas; taffi, mefus, mafon, riwbob, mandarin, pînafal, gŵsberis, ffrwythau'r fforest, cyrens duon, ceirios du, banana, eirin gwlanog, fanila a blas naturiol.
Mae dewis o **7** blas yn y potiau mawr; taffi, mefus, mafon, fanila, banoffee, ffrwythau'r fforest a blas naturiol.
Yn ôl Gareth a Falmai Roberts blas taffi a blas mefus ydy'r mwyaf poblogaidd.
Mae nifer o archfarchnadoedd **ar hyd a lled** Cymru yn gwerthu iogwrt Llaeth y Llan: ASDA, Morrisons, Lidl, Tesco a'r Co-op ac hefyd llawer o siopau **annibynnol** yng Nghymru a Lloegr.
Mae'n cymryd 12-15 awr i wneud iogwrt. Mae llaeth homogenaidd yn cael ei basteureiddio ac yn cael ei roi mewn tanc. Nesa' mae siwgr yn cael ei **ychwanegu** ac yn cael ei **gymysgu** gyda'r llaeth. Yna mae'r llaeth gyda'r siwgr yn cael ei **oeri** ac mae *culture* byw yn cael ei ychwanegu. Mae'n cael ei **adael** am 12–15 awr ac yn cael ei **oeri** dros nos. Yn y bore mae'r iogwrt yn cael ei **roi** mewn potiau lliwgar ac yn cael ei werthu.

**Tasgau gydag ymateb di-eiriau**

Rhowch gylch o amgylch yr ateb cywir

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Mae fferm Gareth a Falmai Roberts yn y gogledd. | Ydy / Nac ydy |
| **2.** | Mae'r enw Llaeth y Llan yn dod o enw'r fferm. | Ydy / Nac ydy |
| **3.** | Roedd llawer o laeth yn cael ei daflu i ffwrdd. | Oedd / Nac oedd |
| **4.** | Sawl math o iogwrt sy ar gael? | a) 7 b) 15 c) 14 |



**Tasgau gydag ymateb ysgrifenedig**

1. Pa flas sy mor boblogaidd â blas taffi?
2. Ble, yn Lloegr, ydych chi'n gallu prynu iogwrt Llaeth y Llan?
3. Pa ddau beth pwysig sy'n cael eu hychwanegu at y llaeth?
4. Beth sy'n digwydd cyn i'r iogwrt gael ei werthu?

**Tasgau gydag ymateb ysgrifenedig personol**

**A.** Yn ôl Gareth a Falmai Roberts **taffi** a **mefus** ydy'r ddau flas mwyaf poblogaidd.

- **(i)** Ydych chi'n cytuno? Pam?
- **(ii)** Pa 2 flas ydych chi'n hoffi orau?
- **(iii)** Gofynnwch i'ch partner pa 2 flas mae e / hi'n hoffi orau.

Ydych chi'n cytuno gyda'ch partner?

**B.** **GOFYNNWCH** i bawb yn y dosbarth pa flas maen nhw'n hoffi orau o'r 15 blas sydd ar gael gan Llaeth y Llan.

**C.** **DANGOSWCH** eich atebion ar siart tali a **THRAFODWCH** y siart tali gyda phartner.

**Ch.** **DEFNYDDIWCH** yr enghraifft isod i'ch helpu.



Siart tali Blwyddyn 11, Ysgol Cerrig yr Afon.

**Pa flas iogwrt wyt ti'n hoffi orau?**

| | |
|---|---|
| mefus | IIII |
| banana | III |
| taffi | II |
| fanila | 𝍸 II |
| pînafal | IIII |
| mafon | 𝍸 IIII |
| banoffee... ayyb. (*etc.*) | O |
| ddim yn hoffi iogwrt o gwbl | III |

**Trafod siart tali Blwyddyn 11**

1. Pa flas ydy'r mwyaf poblogaidd?
2. Ydych chi'n cytuno?
3. Pa flas ydy'r lleiaf poblogaidd?
4. Ydych chi'n synnu?
5. Faint o bobl sy ddim yn hoffi iogwrt o gwbl?/Oes pobl sy ddim yn hoffi iogwrt o gwbl?
6. Ydy pînafal mor boblogaidd â fanila?
7. Pa flas sy mor boblogaidd â phînafal?

**Ydych chi'n gallu meddwl am gwestiwn arall?**



## Rysáit: Smoothie mwyar duon a iogwrt

**Cynhwysion**

1 cwpan o fwyar duon
1 banana
2 gwpan o ddail sbigoglys
1 cwpan o iogwrt **naturiol** neu **ffrwythau'r fforest**
½ cwpan o sudd oren ffres
1 llwy de o sinsir sy wedi cael ei gratio
1 llwy de o fêl

**Dull**

- Rhowch y cynhwysion i gyd mewn cymysgydd
- Cymysgwch nes bod y cymysgedd yn llyfn
- Rhowch y cymysgedd mewn gwydrau.
- Ychwanegwch un neu ddau o fwyar duon ffres ar ben y Smoothie.
- Mwynhewch!

Defnyddio **strategaethau deall** iaith i'ch helpu i ddarllen y rysáit.

| Strategaeth | Deall y rysáit |
|---|---|
| Y teitl | Rysáit: Mae pawb yn gwybod sut mae rysáit yn edrych. Felly mae deall 'cynhwysion' a 'dull' yn syml.<br>Hefyd 'Rhowch', 'Ychwanegwch', 'Mwynhewch', Cymysgwch' |
| Cyd-destun | Smoothie. Mae'n rhaid meddwl beth sy angen i wneud Smoothie o unrhyw fath. |
| Mathemateg | Sut mae rhifau yn y rysáit yn eich helpu i ddeall '½ llwy de o …' etc |
| Geiriau Saesneg | 'banana', |
| Geiriau sy'n debyg i Saesneg | 'naturiol', 'ffres', 'fforest', 'oren', 'gratio' |
| Ieithoedd eraill | 'mêl' – tebyg i Ffrangeg etc |
| Dyfalu | llyfn : Sut mae Smoothie yn edrych cyn i chi ei fwyta.<br>cymysgedd/cymysgydd: Beth sy angen ei wneud gyda'r mwyar duon, yr iogwrt, y sudd oren etc? |
| Defnyddio geiriadur | I ddod o hyd i ystyr y gair 'sbigoglys', 'sinsir' etc |
| Defnyddio'r llun | I ddod o hyd i ystyr 'gwydrau', 'Ychwanegwch un neu ddau o fwyar duon ffres ar ben y cymysgedd' |

Ydych chi wedi prynu iogwrts ***Llaeth y Llan*** erioed?



Beth am flasu un neu ddau – chi a'r teulu ac yna anfon e bost at y cwmni **www.villagedairy.co.uk** yn mynegi eich barn.

Ydych chi angen help i ysgrifennu'r ebost?

- **DARLLENWCH** yr ebost ar y dudalen nesaf fel dosbarth
- **TRAFODWCH** y ffordd mae'r ebost wedi cael ei ysgrifennu
- **YSGRIFENNWCH** eich ymateb eich hun.

**DARLLENWCH** ebost Rebekah at ***Llaethdy'r Llan***

Fy enw ydy Rebekah a dw i'n byw yn Rhoslan.
Dw i'n hoff iawn o fwyta iogwrt achos mae'n iach. Dw i wrth fy modd gyda iogwrt Llaeth y Llan, yn enwedig iogwrt blas mefus a blas taffi. Mae'n rhaid cyfaddef *(admit)* dydw i ddim yn hoffi blas banoffee achos dydw i ddim yn mwynhau blas banana o gwbl.
Mae Mam yn prynu iogwrt Llaeth y Llan i fi a fy chwaer o'r Co-op yn ymyl ein tŷ. Mae fy chwaer yn mwynhau iogwrts blas taffi hefyd a blas fanila ond ei hoff iogwrt ydy gŵsberis. Does dim un blas dydy hi ddim yn hoffi, dw i ddim yn credu!
Yn wir mae pawb yn y teulu wrth eu bodd gyda iogwrts Llaeth y Llan.
Weithiau dw i'n gwneud Smoothies gyda iogwrt mwyar duon. Roedd y rysáit yn ***IAW***, cylchgrawn yr Urdd, ym mis Hydref 2016.
Baswn i'n hoffi iogwrt blas lemon hefyd os gwelwch yn dda achos dw i'n hoffi'r blas ffres.
Diolch yn fawr am wneud iogwrts mor flasus.

Hwyl,
Rebekah

**TRAFODWCH yr ebost.**

**Beth sy ym mhob paragraff?**

Paragraff 1: Barn bersonol
Paragraff 2: Barn bobl eraill (3ydd person)
Paragraff 3: Gwybodaeth ychwanegol

**Pam mae'r ebost yn dda?**

**Mae Rebekah yn:**

- amrywio *(vary)* y berfau i fynegi barn
- defnyddio'r 3ydd person
- rhoi rhesymau i gefnogi *(support)* ei barn
- defnyddio ymadroddion
- amrywio amser y ferf

Ydych chi eisiau ychwanegu rhywbeth?

Dw i'n hoff iawn o ...
Dw i wrth fy modd gyda ...
Dw i ddim yn hoffi ...
Dw i ddim yn mwynhau ...

Mae Mam yn ...
Mae fy chwaer yn ...
Ei hoff iogwrt ydy ...
Dydy hi ddim yn hoffi ...

achos mae'n iach.
achos dydw i ddim yn mwynhau...
achos dw i'n hoffi'r blas ffres.

weithiau
yn enwedig
rhaid cyfaddef
does dim un
dw i ddim yn credu

Dw i'n ...
Mae fy chwaer ...
Roedd ...
Baswn i'n hoffi ...

**YSGRIFENNWCH yr ebost.**

Erbyn hyn rydych chi'n barod i ysgrifennu eich ebost eich hun.
**PEIDIWCH** â defnyddio ebost Rebekah wrth ysgrifennu.
Mae'n well ymarfer ysgrifennu'n ddigymell, felly gwnewch nodiadau BYR cyn cychwyn.
**TRIWCH** ychwanegu rhywbeth gwreiddiol *(original)* yn yr ebost hefyd.